*Cyfarwyddiadau i Fyrddau Arholi ar gyfer Rhaglenni Israddedig*

*Fersiwn 01 (23/3/23)*

- Pan fo'r marciau sydd yn eisiau’n ymwneud ag asesiadau sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, nodir bod cynnydd 'yn yr arfaeth'. Caiff y myfyriwr ddechrau’r flwyddyn ddilynol, ond ni fydd symud ymlaen swyddogol nes bydd yr holl waith sy'n weddill wedi ei gwblhau. Hefyd, gellir gohirio unrhyw weithgareddau dysgu yn y flwyddyn ddilynol sy'n ddibynnol ar lwyddo mewn cynnwys blaenorol nes bydd y gwaith blaenorol wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

Os yw proffil marciau myfyriwr yn cynnwys marciau sydd yn eisiau oherwydd Amgylchiadau Arbennig (y tu hwnt i’r Gweithredu Diwydiannol) sy’n dderbyniol gan y Bwrdd Arholi, dylid cynnig cyfle i gwblhau asesiad Sefyll am y Tro Cyntaf gan ddilyn gweithdrefnau safonol.

Bydd symud ymlaen yn seiliedig ar y credydau a gwblhawyd (gan gynnwys y rhai y bernir eu bod wedi'u cwblhau).

1. Bydd angen 80 credyd o fodiwlau ar y marc llwyddo ar y myfyriwr.
   i. Caiff myfyrwyr a gwblhaodd <80 credyd o fodiwlau oherwydd eithriadau modiwlau symud ymlaen os llwyddasant yn yr holl fodiwlau a gwblhawyd ar y marc llwyddo. Ar gyfer unrhyw fodiwlau gorffenedig a fethwyd, bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.
   ii. Rhaid i fyfyrwyr a gwblhaodd 80 credyd lwyddo ymhob modiwl a gwblhawyd ar y marc llwyddo. Ar gyfer unrhyw fodiwlau gorffenedig a fethwyd, bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.
   iii. Rhaid i fyfyrwyr a gwblhaodd 90 neu fwy o gredydau lwyddo ymhob modiwl a gwblhawyd ar y marc llwyddo.
2. Ymhob senario uchod, rhaid llwyddo mewn unrhyw fodiwlau craidd a gwblhawyd.
3. Ymhob senario uchod, rhaid i fyfyrwyr fod â chyfartaledd cyffredinol am y flwyddyn uwchlaw'r marc llwyddo, yn seiliedig ar y credydau a gwblhawyd
4. Ymhob senario uchod, ni chaiff myfyrwyr symud ymlaen â marc modiwl gorffenedig o <30%. Bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.